



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

CANLLAWIAU

# Diwygiadau i Ddogfennau Cymeradwy (WGC 010/2020)

Manylion newidiadau i Ddogfen Gymeradwy rhan B  
(Diogelwch Tân) cyfrolau 1 a 2, a Dogfen Gymeradwy 7  
(Deunyddiau a Chreffftwaith).

Cyhoeddwyd gyntaf: 21 Rhagfyr 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 21 Rhagfyr 2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfennau-cymeradwy-wgc-0102020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

Cylchlythyr reoliadau adeiladu

---

Cyflwyniad

---

Cwmpas

---

Cymhwyso'r dogfennau cymeradwy

---

Trefniadau trosiannol

---

Ymholiadau

---

Atodiad A

---

Atodiad B

---

## Cylchlythyr reoliadau adeiladu

---

Rhif y WGC Dyddiad cyhoeddi: 21/12/2020  
Cylchlythyr: 010/  
2020

---

Statws: Er gwybodaeth

---

Teitl: Cyhoeddi cyfrolau diwygiedig o Ddogfen Gymeradwy B (Diogelwch tân) cyfrol 1 a 2 gan gynnwys newidiadau i Atodiad A 'Asesu yn lle profion' a cyfrol diwygiedig o Reoliad 7 (Deunyddiau a Chreffftwaith).

---

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfennau-cymeradwy-wgc-0102020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

---

**Cyhoeddwyd gan:** Francois Samuel: Pennaeth Rheoliadau Adeiladu

---

**Cyfeiriwyd at:**           **Anfonwch ymlaen at:**

---

Prif Weithredwyr  
Awdurdodau Lleol

Swyddogion Rheoli Adeiladu'r Awdurdodau Lleol

Aelodau'r Senedd

Cymdeithas  
Llywodraeth Leol  
Cymru

Cymdeithas  
Arolygwyr  
Cymeradwy  
Corfforaethol

Cyngor y Diwydiant  
Adeiladu

Fforwm Personau  
Cymwys

---

**Crynodeb:**

---

Diben y llythyr hwn yw tynnu eich sylw at gyhoeddi Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân), cyfrol 1: Tai annedd – cyfrol 2020 yn cynnwys diwygiadau i Atodiad A mewn perthynas ag asesu yn lle profion a Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch tân) cyfrol 2: Adeiladau heblaw am dai annedd – cyfrol 2020 yn cynnwys diwygiadau i Atodiad A mewn perthynas ag asesu yn lle profion. A hefyd fersiwn ddiwygiedig o Ddogfen Gymeradwy 7 (Deunyddiau a Chrefftwaith) – cyfrol 2020.

---

**I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:**

---

Colin Blick

**Llinell Uniongyrchol:** 0300 062 8144

Rheoliadau  
Adeiladu

**E-bost:** enquiries.brconstruction@llyw.cymru

---

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfennau-cymeradwy-wgc-0102020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

---

Swyddfeydd  
Llywodraeth Cymru

---

Merthyr Tudful

**Gwefan:**

<https://llyw.cymru/adeiladu-a-chynllunio>

CF48 1UZ

---

## Deddf Adeiladu 1984

### Rheoliadau Adeiladu 2010

#### Diwygiadau i Ddogfennau Cymeradwy

## Cyflwyniad

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i mi dynnu eich sylw at y cyhoeddiadau canlynol: Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân), Cyfrol 1: Tai annedd argraffiad 2006 sy'n ymgorffori diwygiadau 2010, 2016 a 2020, Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân) Cyfrol 2: Adeiladau ac eithrio tai annedd argraffiad 2006 sy'n ymgorffori diwygiadau 2010, 2013, 2016, 2017 a 2020 a Dogfen Gymeradwy 7 (Deunyddiau a Chreffftwaith) argraffiad 2013 sy'n ymgorffori diwygiadau 2020.

2. Dim ond i adeiladau a gwaith adeiladu yng Nghymru y mae'r newidiadau a wnaed i'r Ddogfennau Cymeradwy yn gymwys.

3. Diben y Cylchlythyr hwn yw tynnu sylw at y canlynol:

i. Diwygiadau i Atodiad A (Perfformiad deunyddiau, cynhyrchion a strwythurau) i Ddogfen Gymeradwy B (Diogelwch tân) Cyfrolau 1 a 2. Mae'r Ddogfen Gymeradwy wedi'i diwygio i atgyfnerthu'r darpariaethau ar gyfer cynnal asesiadau yn lle profion tân.

ii. Ymgorffori cynnwys y slip diwygio a nodwyd yng nghylchlythyr **WGC 003/2020**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfennau-cymeradwy-wgc-0102020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ar gyfer Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch tân) Cyfrol 1 Tai annedd, Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch tân) Cyfrol 2 Adeiladau ac eithrio tai annedd a Dogfen Gymeradwy 7 (Deunyddiau a Chreffftwaith). [WGC 003/2020](#)

iii. Ymgorffori cynnwys y slip diwygio a nodwyd yng nghylchlythyr [WG 001/2017](#) mewn perthynas â Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch tân) Cyfrol 2 [WG 001/2017](#)

## Cwmpas

4. Mewn perthynas â 3.i. uchod, mae'r Ddogfen Gymeradwy wedi'i diwygio i atgyfnerthu'r gofynion wrth ddarparu asesiadau yn lle profion tân. Mae'r diwygiad yn nodi tair ffordd o ddangos cydymffurfiaeth.

5. Roedd y ddarpariaeth flaenorol yn rhestru nifer o ffyrdd o ddangos perfformiad, er enghraifft cyfeirio at berfformiadau enwol fel Eurocode, BR 128. Mae'r ddarpariaeth ddiwygiedig wedi cyffredinoli'r methodolegau profi, a chaiff llwybrau penodol a nodwyd yn flaenorol eu cwmpasu o fewn y tri llwybr cydymffurfio diwygiedig.

6. Er bod llwybrau cydymffurfio presennol yn gymwys o hyd, mae'r diwygiadau i'r Ddogfen Gymeradwy yn sicrhau na ddylid ystyried asesiadau yn ffordd o osgoi prawf os oes angen un.

7. Mae 3.ii. a 3.iii. uchod yn diweddarau'r Dogfennau Cymeradwy i gynnwys newidiadau blaenorol a wnaed i Ddogfen Gymeradwy B Cyfrolau 1 a 2 a Dogfen Gymeradwy 7 drwy gyhoeddi slipiau diwygio.

## Cymhwyso'r dogfennau cymeradwy

8. Daw'r Dogfennau Cymeradwy diwygiedig i rym ar 31 Rhagfyr 2020 yn yr amgylchiadau a nodir yn yr hysbysiad ffurfiol o gymeradwyaeth yn ATODIAD A i'r Cylchlythyr hwn.

9. Caiff cymeradwyaeth ei thynnu'n ôl ar gyfer Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân) Cyfrol 1: Tai annedd argraffiad 2006 sy'n ymgorffori diwygiadau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfennau-cymeradwy-wgc-0102020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

2010 a 2016, Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch tân) Cyfrol 2: Adeiladau ac eithrio tai annedd argraffiad 2006 sy'n ymgorffori diwygiadau 2010, 2013 a 2016 a Dogfen Gymeradwy 7 (Deunyddiau a Chreffftwaith) argraffiad 2013 ar 31 Rhagfyr 2020 fel y nodir yn ATODIAD B i'r cylchlythyr hwn.

## Trefniadau trosiannol

10. Ymhellach i Adran 6 (3) (b) o Ddeddf Adeiladu 1984, mewn perthynas â **3.i. uchod**, daw diwygiadau i Atodiad A (Perfformiad deunyddiau, cynhyrchion a strwythurau) i Ddogfen Gymeradwy B (Diogelwch tân) Cyfrol 1 a 2 i rym ar 31 Rhagfyr 2020. Nid yw'r diwygiadau yn gymwys sut bynnag lle mae hysbysiad adeiladu, hysbysiad cychwynnol neu gynlluniau llawn wedi cael eu hadneuo gydag awdurdod lleol cyn 31 Rhagfyr 2020.

11. Yn unol ag adrannau 6(3) a (4) o Ddeddf Adeiladu 1984, mae Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r diwygiadau ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu.

12. Nid yw'r cylchlythyr hwn yn rhoi cyngor ar ofynion technegol Rheoliadau Adeiladu 2010 oherwydd eir i'r afael â'r materion hyn drwy ddiwygio'r Dogfennau Cymeradwy.

## Ymholiadau

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn at:

Francois Samuel, Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

Ffôn: 03000 628232.

E-bost: [enquiries.brconstruction@llyw.cymru](mailto:enquiries.brconstruction@llyw.cymru)

Yn gywir,

**Francois Samuel**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfennau-cymeradwy-wgc-0102020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Pennaeth Rheoliadau Adeiladu

# Atodiad A

## Deddf Adeiladu 1984

Hysbysiad o gymeradwyaeth i ddiwygio dogfennau sy'n rhoi canllawiau ymarferol ar ofynion rheoliadau adeiladu 2010

Mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn rhoi hysbysiad o dan adran 6 o Ddeddf Adeiladu 1984 eu bod, wrth arfer y pwerau a nodir o dan adran 6, wedi cymeradwyo'r diwygiadau i'r dogfennau a restrir isod at ddibenion rhoi canllawiau ymarferol ar ofynion penodedig Rheoliadau Adeiladu 2010.

Daw'r gymeradwyaeth i rym ar 31 Rhagfyr 2020 ac eithrio mewn perthynas â gwaith a ddechreuwyd cyn y dyddiad hwnnw neu waith y mae hysbysiad adeiladu, hysbysiad cychwynnol neu gynlluniau llawn wedi'u rhoi mewn perthynas ag ef cyn y dyddiad hwnnw.

Dogfennau Cymeradwy	Gofynion y Rheoliadau Adeiladu y cymeradwyir y ddogfen ar eu cyfer	Y dyddiad y daw'r diwygiad i rym
---------------------	--	----------------------------------

**Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch tân)  
Cyfrol 1 Tai annedd (argraffiad 2006 sy'n ymgorffori diwygiadau 2010, 2016 a 2020)**

Rhan B, Atodlen 1 31 Rhagfyr 2020

**Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch tân)  
Cyfrol 2 Adeiladau ac eithrio tai annedd**

Rhan B, Atodlen 31 Rhagfyr 2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfennau-cymeradwy-wgc-0102020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

---

(argraffiad 2006 sy'n ymgorffori diwygiadau 2010, 2013, 2016, 2017 a 2020)

1

---

Dogfen Gymeradwy 7 (Deunyddiau a Chreffftwaith) argraffiad 2013 sy'n ymgorffori diwygiadau 2020

Rheoliad 7

31 Rhagfyr 2020

**Noder:** Daeth y newidiadau yng nghylchlythyr **WGC 003/2020** i rym ar 13 Ionawr 2020

---

## Atodiad B

### Deddf Adeiladu 1984

---

Hysbysiad ynghylch tynnu cymeradwyaeth yn ôl ar gyfer dogfennau sy'n rhoi canllawiau ymarferol ar ofynion rheoliadau adeiladu 2010

---

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol drwy hyn yn rhoi hysbysiad o dan adran 6 o Ddeddf Adeiladu 1984 ei fod, wrth arfer y pwerau o dan adran 66(5), wedi tynnu cymeradwyaeth yn ôl ar gyfer y dogfennau a restrir isod at ddibenion rhoi canllawiau ymarferol ar ofynion penodedig Rheoliadau Adeiladu 2010.

Caiff y gymeradwyaeth ei thynnu'n ôl ar 31 Rhagfyr 2020 ac eithrio mewn perthynas â gwaith a ddechreuwyd cyn y dyddiad hwnnw neu waith y mae hysbysiad adeiladu, hysbysiad cychwynol neu gynlluniau llawn wedi'u rhoi mewn perthynas ag ef cyn y dyddiad hwnnw.

---

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfennau-cymeradwy-wgc-0102020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



---

## Dogfennau Cymeradwy

Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch tân) Cyfrol 1 Tai annedd (argraffiad 2006 sy'n ymgorffori diwygiadau 2010 a 2016)

Dogfen Gymeradwy B (Diogelwch tân) Cyfrol 2 Adeiladau ac eithrio tai annedd (argraffiad 2006 sy'n ymgorffori diwygiadau 2010, 2013 a 2016)

Dogfen Gymeradwy 7 (Deunyddiau a Chrefftwaith) argraffiad 2013

---

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfennau-cymeradwy-wgc-0102020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Diwygiadau i Ddogfennau Cymeradwy \(WGC 010/2020\)](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfennau-cymeradwy-wgc-0102020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/diwygiadau-i-ddogfennau-cymeradwy-wgc-0102020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).